
Gyrfaoedd

Gweithredu'r fframwaith
gyrfaoedd a'r byd
gwaith mewn ysgolion
uwchradd

Medi 2017



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Prif ganfyddiadau	5
Argymhellion	7
Darpariaeth	8
Arweiniad i ddisgyblion ar wneud penderfyniadau	8
Cyflwyno gyrfaoedd a'r byd gwaith	9
Asesu cynnydd disgyblion	11
Profiad sy'n canolbwyntio ar waith	11
Arweinyddiaeth a rheolaeth	13
Arweinyddiaeth a chydlyniad	13
Prosesau hunanarfarnu	14
Gweithio mewn partneriaeth	15
Hyfforddiant staff ac adnoddau	16
Atodiad: Sail y dystiolaeth	17
Geirfa	18
Cyfeiriadau	19

Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2016-2017. Mae'r adroddiad yn archwilio graddau ac effeithiolrwydd y ffordd y mae ysgolion uwchradd yn cyflwyno'r fframwaith statudol Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (GBG). Mae'n ystyried y graddau y mae darpariaeth ac arweinyddiaeth ysgolion uwchradd yn y maes hwn wedi newid ers adroddiad blaenorol Estyn ar GBG, sef *Penderfyniadau Gwybodus*, ym mis Hydref 2012. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o 156 o arolygiadau ysgolion uwchradd er Hydref 2012 ac o arolwg o 35 ysgol uwchradd (gweler yr Atodiad am fanylion).

Cefndir

Yn Ionawr 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru". Bwriad y fframwaith statudol hwn oedd sicrhau bod "*pobl ifanc yn barod i gymryd eu safle mewn byd gwaith sy'n prysur newid yn yr economi fyd-eang.*" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, tud. 2). Amlinellodd y fframwaith amcanion dysgu ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 3, cyfnod allweddol 4 ac ôl-16. Nododd y ddogfen y canlynol ynglŷn â chyflwyno GBG yn llwyddiannus:

"...yr unig ffordd i gyflawni hyn yn effeithiol yw trwy raglen wedi'i chynllunio sy'n cynnwys ystod eang o brofiadau addysgu a dysgu a chyd-destunau ynghyd â chyfraniadau gan amrywiaeth o bartneriaid. Dylai'r rhain gynnwys y profiadau uniongyrchol gorau posibl o'r byd gwaith, wedi'u cefnogi gan gyfleoedd am gyngor ac arweiniad unigol." (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, tud. 2)

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Uchelgeisiau i'r Dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru*. Argymhellodd yr adroddiad hwn y dylid arolygu gweithredu'r fframwaith GBG ar sail thematig gan Estyn.

Yn 2012, cyhoeddodd Estyn *Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith*. Archwiliodd yr adroddiad hwn pa mor effeithiol yr oedd ysgolion uwchradd wedi gweithredu'r fframwaith GBG. Dyma oedd prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn:

- er bod bron pob ysgol wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion i'w helpu i ddewis pynciau ym Mlwyddyn 9, roeddent yn gwneud defnydd cyfyngedig o wybodaeth y farchnad lafur i alluogi disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus
- nid oedd bron pob ysgol yn olrhain cynnydd disgyblion tuag at yr amcanion dysgu yn y fframwaith GBG mewn modd cyson neu systematig
- roedd faint o amser gwersi yr oedd ysgolion yn ei neilltuo ar gyfer GBG yn amrywio gormod

- yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd ysgolion yn arfarnu eu darpariaeth ar gyfer GBG yn ddigon trylwyr
- nid oedd rôl llywodraethwyr o ran cefnogi cynllunio a chyflwyno GBG yn strategol wedi'i datblygu'n ddigonol
- bron ym mhob ysgol, roedd Gyrfa Cymru yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddarpariaeth GBG; fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, roedd gostyngiadau diweddar yng ngwasanaethau Gyrfa Cymru wedi rhoi straen ar allu ysgolion i gyflwyno GBG

Dyma oedd argymhellion yr adroddiad hwn:

Dylai Llywodraeth Cymru:

- ymgynghori ag ysgolion i'w helpu i ddatblygu systemau i olrhain tystiolaeth yn erbyn y fframwaith GBG er mwyn i ddisgyblion ac athrawon allu monitro cynnydd unigolion wrth ddatblygu medrau mewn cynllunio gyrfa a gwneud penderfyniadau
- helpu ysgolion i ddatblygu eu defnydd o ddata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i'w helpu i arfarnu eu heffeithiolrwydd wrth gyflwyno GBG
- dosbarthu data ar gynaliadwyedd cyrchfannau cyntaf dysgwyr er mwyn i ysgolion allu monitro pa mor llwyddiannus fu eu dewisiadau
- annog mwy o ysgolion i weithio tuag at ennill dyfarniad Marc Gyrfa Cymru

Dylai ysgolion:

- wella rhan llywodraethwyr yng nghynllunio strategol GBG
- gwneud defnydd gwell o'r data sydd ar gael i fonitro ac olrhain tueddiadau yng nghyflawniad a dilyniant disgyblion er mwyn cynllunio gwelliannau mewn GBG

Dylai Rhwydweithiau Dysgu:

- arwain sefydliadau wrth ddatblygu strategaethau i arfarnu'n drylwyr pa mor dda y maent yn paratoi disgyblion ar gyfer adegau pontio allweddol ac ar gyfer byd gwaith
- annog casglu a rhannu data priodol i arfarnu sut caiff disgyblion eu paratoi ar gyfer adegau pontio allweddol

Yn 2014, cyhoeddodd Estyn *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed*. Archwiliodd yr adroddiad hwn ansawdd, cysondeb a didueddrwydd gwasanaethau cymorth dysgwyr a ddarperir gan ysgolion i ddisgyblion cyn, yn ystod ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, gan gynnwys cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd. Nododd yr adroddiad:

- mai darpariaeth cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd oedd y nodwedd wannaf o ran cymorth i ddysgwyr
- mai lleiafrif o ysgolion yn unig a oedd yn cynnig cyfle i bob disgybl drafod eu cynlluniau gyrfaoedd ym Mlwyddyn 9 neu Flwyddyn 11
- nad oedd mwyafrif yr ysgolion yn rhoi gwybodaeth gyfoes i ddisgyblion am gyrsiau, cyfleoedd gyrfa a llwybrau dilyniant
- bod tuedd tuag at gadw disgyblion mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion 11-18

- nad oedd ysgolion wedi rhoi ystyriaeth ddigon gofalus i sut dylent ddisodli'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnal gan Gyrfa Cymru yn y gorffennol

Dangosodd *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed* fod llawer o ysgolion yn ansicr ynglŷn â'r hyn y byddai newidiadau i'r gwasanaeth a gynigir gan Gyrfa Cymru yn ei olygu ar gyfer cyfweiliadau gyrfaoedd disgyblion ac nid oedd wedi ystyried pa newidiadau yr oedd angen eu gwneud i'w rhaglenni gyrfaoedd a chyngor.

Dyma oedd argymhellion yr adroddiad hwn:

Dylai ysgolion:

- sicrhau bod gwasanaethau cymorth dysgwyr yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad disgyblion o ran graddau uwch mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg TGAU
- defnyddio dull mwy strategol ar gyfer gwasanaethau cymorth dysgwyr a chydlynu cyflwyno hyfforddi dysgu, cymorth personol, a chyngor ac arweiniad ar yrfaoedd
- gwella cwrpas ac ansawdd cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd
- gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r staff cymorth mwyaf priodol am eu cynnydd, eu dyheadau a'u llwybr dysgu, yn enwedig ar adegau allweddol ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11
- darparu hyfforddiant a gwybodaeth reolaidd a chyfoes i bob un o'r staff sy'n rhoi cyngor ac arweiniad
- arfarnu effaith gwasanaethau cymorth dysgwyr ar ddeilliannau
- cynllunio ar gyfer gostyngiadau posibl mewn cyllid ar gyfer cymorth allanol er mwyn cynnal lefelau presennol cymorth dysgwyr

Dylai awdurdodau lleol:

- arwain a chydlynu partneriaethau i gynorthwyo ysgolion â gwasanaethau cymorth allanol

Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddiweddarau ei harweiniad i ysgolion ar gyngor ac arweiniad gyrfaoedd i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i rôl Gyrfa Cymru

Gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau sylweddol i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2015. Un agwedd ar y newidiadau hyn oedd bod y gofyniad i ddisgyblion fynd ar leoliad profiad gwaith yn cael ei ddisodli gan yr her Menter a Chyflogadwyedd. Cynlluniwyd y gweithgaredd hwn i "*ddatblygu sgiliau dysgwyr, tra'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a phriodoleddau mentrus a gwella cyflogadwyedd*". (CBAC, 2015, tud. 16)

Ym mis Mawrth 2014, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Athro Graham Donaldson gynnal Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesu yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddwyd '*Dyfodol Llwyddiannus*' (Donaldson, 2015). Nododd yr adroddiad y byddai 'plant a phobl ifanc... yn hoffi gweld mwy o ffocws ar ... arweiniad gyrfaoedd' (tud. 17). Un o 'bedwar diben' y cwricwlwm newydd a

amlinellwyd yn yr adroddiad yw y dylai gynorthwyo dysgwyr i fod yn 'gyfranwyr medrus sydd... yn barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith'. Ym mis Mehefin 2015, derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un o'r argymhellion yn Dyfodol Llwyddiannus.

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae bron pob ysgol yn darparu ystod o wybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 i helpu iddynt wneud eu dewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol 4. Defnyddiant ystod o strategaethau i gynorthwyo disgyblion a'u rhieni i wneud penderfyniadau, gan gynnwys darparu cyngor gan gynghorwyr gyrfaoedd mewn nosweithiau agored. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion wedi ymateb yn effeithiol i ostyngiadau yn y cymorth a gynigir gan Gyrfu Cymru. O ganlyniad, ychydig o ysgolion yn unig sy'n sicrhau bod pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn cael cyfweiliad i drafod eu dewisiadau gyrfa.
- 2 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu ystod o wybodaeth gyffredinol am ddewisiadau ôl-16 i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth nac adnoddau digon cyfoes i arwain penderfyniadau disgyblion. Yn gyffredinol, mae ysgolion 11-18 yn rhoi gormod o bwyslais ar hyrwyddo eu chweched dosbarth eu hunain yn hytrach nag archwilio ystod y dewisiadau eraill sydd ar gael i ddisgyblion ar draws ystod y darparwyr yn llawn.
- 3 Mae dulliau ar gyfer cyflwyno GBG yn parhau i amrywio'n fawr ar draws ysgolion. Mae llawer o ysgolion wedi newid eu darpariaeth yn sylweddol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Er bod yr amser a neilltuir i weithgareddau sy'n gysylltiedig â GBG gan ysgolion wedi cynyddu ar gyfartaledd, mewn llawer o achosion, caiff y ddarpariaeth hon ei chynllunio bellach o amgylch gofynion Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn hytrach na'r fframwaith GBG.
- 4 Mae faint o amser gwersi y mae ysgolion yn ei neilltuo i GBG yn parhau i amrywio'n fawr. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn neilltuo unrhyw amser i GBG. Mewn lleiafrif o ysgolion, ni ddarperir hyfforddiant nac adnoddau cyfoes i staff ymgymryd â'r rôl hon. Mae lleiafrif o ysgolion o'r farn fod eu darpariaeth GBG yn llai effeithiol nag ydoedd bum mlynedd yn ôl. Mae'r ysgolion hyn yn credu bod gostyngiadau yn y cymorth sydd ar gael gan Gyrfu Cymru, wedi'i gyfuno â gofynion cynyddol cwricwlwm cyfnod allweddol 4, wedi golygu na allant gyflwyno GBG mor effeithiol ag yr oeddent yn y gorffennol. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi cryfhau eu darpariaeth GBG dros y cyfnod hwn.
- 5 Mae cyfran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith yng nghyfnod allweddol 4 neu yn y chweched dosbarth wedi dirywio'n sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn teimlo na allant fodloni'r gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer gallu cynnal rhaglen profiad gwaith gan nad yw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrfu Cymru gynnal cronfa ddata profiad gwaith genedlaethol ar ran ysgolion mwyach. Mae bron pob ysgol sydd wedi lleihau darpariaeth profiad gwaith yn teimlo bod hyn wedi cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion ac ar eu dealltwriaeth o'u dewisiadau gyrfa. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynnal yr agwedd hon ar eu darpariaeth ac yn rheoli'r gofynion iechyd a diogelwch eu hunain.

- 6 Mae cyfran yr ysgolion sydd â systemau priodol ar waith i asesu cynnydd disgyblion yn erbyn yr amcanion dysgu yn y fframwaith GBG wedi cynyddu ychydig ers adroddiad blaenorol Estyn yn 2012. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r drefn o olrhain cynnydd disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd.
- 7 Er bod ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddata i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth GBG, nid yw systemau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar gyfer GBG yn ddigon trylwyr. Mae hyn oherwydd nad yw'r data y maent yn ei ddefnyddio, er enghraifft cyfran y disgyblion sy'n aros yn yr ysgol ar gyfer y chweched dosbarth, o reidrwydd yn fesur dilys o ba mor dda y mae'r ysgol wedi cynorthwyo disgyblion i wneud penderfyniadau llwyddiannus yn gysylltiedig â gyrfaoedd. Ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n defnyddio data yn briodol i arfarnu pa mor dda y mae penderfyniadau disgyblion yn eu galluogi i lwyddo i gynnal eu dewisiadau dilyniant.
- 8 Er bod cyfran yr ysgolion sydd â llywodraethwr enwebedig sydd â chyfrifoldeb am GBG wedi cynyddu ychydig er 2012, nid yw rôl llywodraethwyr mewn cefnogi GBG wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n gwneud defnydd effeithiol o brofiad ac arbenigedd eu llywodraethwyr i wella'r agwedd hon ar eu gwaith.
- 9 Mae'r graddau y mae ysgolion yn cynnwys pobl eraill mewn cyflwyno GBG yn parhau i amrywio'n fawr. Mae cyfran y GBG a gyflwynir trwy bartneriaethau allanol wedi dirywio dros y pum mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, ychydig iawn o gyfle y byddai disgyblion yn ei gael i elwa ar GBG heb iddo gael ei gyflwyno'n allanol.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 Sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael trafodaethau rheolaidd am eu cynnydd, eu dyheadau a'u llwybrau dysgu posibl, yn enwedig ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11
- A2 Rhoi gwybodaeth gywir a chyfoes i ddisgyblion am ystod lawn y cyfleoedd chweched dosbarth, addysg bellach a phrentisiaeth sy'n agored iddynt
- A3 Arfarnu eu darpariaeth GBG i sicrhau ei bod:
- yn cael ei chyflwyno gan staff wedi'u hyfforddi'n dda, a bod y ddarpariaeth yn cynnwys adnoddau cyfoes
 - yn darparu profiadau perthnasol sy'n canolbwyntio ar waith ar gyfer disgyblion
 - yn defnyddio gwybodaeth yn well i fonitro ac olrhain tueddiadau yng nghyflawniad a dilyniant disgyblion er mwyn cynllunio gwelliannau yn y ddarpariaeth
 - yn cael ei hintegreiddio mewn prosesau hunanarfarnu, cynllunio gwelliant ac atebolrwydd ysgol gyfan
- A4 Cynnwys llywodraethwyr yn fwy mewn goruchwyllo GBG yn strategol

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A5 Helpu ysgolion i ddatblygu eu defnydd o wybodaeth i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth GBG

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A6 Hyrwyddo partneriaethau cryfach rhwng ysgolion, darparwyr, cyflogwyr a phobl eraill i wella'r ffordd y caiff cyngor ac arweiniad diduedd eu cyflwyno
- A7 Adolygu'r fframwaith GBG a diweddarau arweiniad yng ngoleuni egwyddorion diwygio'r cwricwlwm a nodwyd yn Dyfodol Llwyddiannus


Darpariaeth

Arweiniad i ddisgyblion ar wneud penderfyniadau

- 10 Mae bron pob ysgol yn rhoi ystod o wybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 i'w helpu i wneud eu dewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol 4. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn annog disgyblion i ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru i archwilio'r dewisiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal nosweithiau agored i rieni a disgyblion i'w galluogi i drafod dewisiadau gyda staff ysgol a chynghorwyr gyrfa. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n rhoi cyfweiliad unigol i ddisgyblion i'w cynorthwyo â gwneud eu dewisiadau.
- 11 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn darparu ystod briodol o wybodaeth gyffredinol i ddisgyblion am ddewisiadau ôl-16. Yn nodweddiadol, caiff y wybodaeth hon ei chyfleu trwy nosweithiau agored, gwasanaethau a'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae lleiafrif o ysgolion yn cymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd neu'n gwahodd siaradwyr allanol o fusnesau lleol, er enghraifft.
- 12 Dywed mwyafrif yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt fod gostyngiadau yn y gwasanaeth gan Gyrfa Cymru wedi achosi iddynt ostwng y cymorth sydd ar gael i lawer o ddisgyblion yn sylweddol. Mewn tua hanner yr ysgolion, darperir cyfweiliadau gyrfa unigol dim ond ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rheiny y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r ysgolion hyn yn dibynnu ar Gyrfa Cymru i gynnal y cyfweiliadau hyn. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n sicrhau bod pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn cael cyfweiliad i drafod eu dewisiadau gyrfa.
- 13 Nid yw lleiafrif o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth nac adnoddau cyfoes i gynghori disgyblion. Ychydig o ysgolion yn unig sy'n parhau i ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru yng nghyfnod allweddol 4 i helpu disgyblion i ddeall eu dewisiadau ôl-16. Mewn rhai ysgolion, mae'r arweiniad a'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 yn gyfyngedig neu'n rhannol. Yn gyffredinol, mae ysgolion 11-18 yn rhoi gormod o bwyslais ar hyrwyddo'r parhad yn addysg disgyblion yn eu chweched dosbarth, yn hytrach nag archwilio ystod y dewisiadau sydd ar gael yn llawn, fel cyrsiau academaidd, galwedigaethol neu dechnegol mewn colegau addysg bellach a chwmnïau hyfforddiant yn y gwaith neu brentisiaethau gyda chyflogwyr lleol. Adlewyrchir hyn mewn sylwadau fel "Rydym ni'n llai awyddus i ymwneud â'r coleg gan ein bod ni yn ddarparwr Safon Uwch... maen nhw'n cael eu gweld fel cystadleuaeth" a "Dylai'r rheiny sy'n cael lefel 2+ aros yn yr ysgol".
- 14 Mae bron pob ysgol 11-18 yn rhoi cyngor ac arweiniad cyffredinol, addas i ddisgyblion chweched dosbarth ar baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg neu gyflogaeth. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio siaradwyr allanol, er enghraifft o brifysgolion lleol, i roi gwybodaeth werthfawr i ddisgyblion i gefnogi eu penderfyniadau. Mae lleiafrif o ysgolion yn rhoi ystod eang o gyngor i ddisgyblion, gan gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth am ddewisiadau fel prentisiaethau. Yn y mwyafrif o ysgolion sydd â dosbarthiadau chwech, mae cyngor ac arweiniad yn canolbwyntio'n gryf ar gefnogi ceisiadau ar gyfer prifysgol.

- 15 Er nad yw'r farn a fynegir gan ddisgyblion a rhieni mewn holiaduron cyn-arolygiad mor gadarnhaol eleni ag yr oeddent yn 2012, mae llawer o ddisgyblion o'r farn fod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg neu fywyd gwaith ac yn rhoi cyngor da iddynt wrth wneud eu dewisiadau. Mae llawer o rieni'n credu hefyd fod ysgolion yn paratoi eu plant yn dda.

Ffigur 1: Canran y disgyblion a'r rhieni a ymatebodd sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf mewn holiaduron cyn-arolygiad uwchradd




Cyflwyno gyrfaoedd a'r byd gwaith

- 16 Yng nghyfnod allweddol 3, y dull mwyaf cyffredin o gynnig darpariaeth GBG yw cyflwyno'r ddarpariaeth trwy'r rhaglen ABCh. Yn y mwyafrif o ysgolion, mae Gyrfa Cymru yn rhoi cymorth defnyddiol i ategu cyngor ac arweiniad gan athrawon a staff eraill.
- 17 Yng nghyfnod allweddol 4, y brif ffurf o gyflwyno GBG yw trwy Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, yn enwedig trwy'r her menter a chyflogadwyedd. Mewn lleiafrif o ysgolion, y gweithgarwch her hwn yw'r unig ffordd o gyflwyno GBG.
- 18 Yn y chweched dosbarth, mae dulliau o gyflwyno GBG yn amrywiol iawn. Yn ogystal â Chymhwyster Bagloriaeth Cymru, y dull mwyaf cyffredin yw defnyddio gwasanaethau a chyflwyniadau gan siaradwyr allanol, fel prifysgolion neu gyflogwyr lleol.

- 19 Nododd adroddiad blaenorol Estyn ar addysg ac arweiniad gyrfaoedd, sef *Penderfyniadau Gwybodus* (2012), er na chaiff amser penodedig ei neilltuo ar gyfer GBG, mae gormod o ysgolion nad oeddent yn neilltuo digon o amser ar gyfer y gwaith hwn. Erbyn hyn, mae'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt ar gyfer yr adroddiad hwn yn neilltuo mwy o amser ar gyfer gweithgareddau yn gysylltiedig â GBG yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn neilltuo unrhyw amser i GBG ym Mlwyddyn 7 na Blwyddyn 8 nac yn y chweched dosbarth, ac nid yw rhai ohonynt yn gwneud hynny ym Mlwyddyn 9 a chyfnod allweddol 4.

Ffigur 2: Canran yr ysgolion a ymatebodd nad ydynt yn neilltuo amser ar gyfer GBG



- 20 Mae dulliau o gyflwyno GBG yn parhau i amrywio'n fawr ar draws ysgolion. Fodd bynnag, o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, dywed 86% eu bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w darpariaeth dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mewn llawer o ysgolion, y newid mwyaf arwyddocaol yw bod amser cwricwlwm cyfnod allweddol 4 a oedd yn cael ei neilltuo ar gyfer darpariaeth GBG ar wahân yn y gorffennol bellach yn cael ei neilltuo ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Felly, er bod cyfanswm y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â GBG wedi cynyddu ar y cyfan, caiff llawer o'r ddarpariaeth hon ei chynllunio o amgylch gofynion Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn hytrach na'r fframwaith GBG.
- 21 Pan mae ysgolion wedi gwneud newidiadau sylweddol i'w darpariaeth GBG, y prif reswm a roddwyd oedd y newidiadau sydd ar fin cael eu gwneud i fesurau

perfformiad cyfnod allweddol 4 Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd. Gan y bydd un o'r mesurau hyn yn cynnwys perfformiad yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru o 2018, amgyffrediad ysgolion yw bod blaenoriaeth uwch yn cael ei rhoi i'r cymhwyster hwn na GBG erbyn hyn.

- 22 Dywed mwyafrif yr ysgolion hefyd fod y gostyngiad yn lefelau'r cymorth y gall Gyrfa Cymru ei ddarparu ar hyn o bryd ar gyfer eu darpariaeth GBG yn rheswm dros y newidiadau hyn. Mewn rhai ysgolion, mae amser wedi cael ei ailneilltuo o ddarpariaeth GBG i alluogi ysgolion i neilltuo mwy o amser i gyflwyno'r cyrsiau TGAU newydd mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg.

Asesu cynnydd disgyblion

- 23 Mae lleiafrif o ysgolion yn arfarnu cynnydd disgyblion unigol yn erbyn amcanion dysgu'r fframwaith GBG. Mewn ychydig iawn o ysgolion, maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys defnyddio systemau TGCh, i asesu a monitro cynnydd disgyblion yn erbyn yr amcanion dysgu hyn. Mae'r ysgolion hyn yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau unigol perthnasol ar gyfer disgyblion. Mae'r cymorth hwn yn effeithiol o ran arwain disgyblion at wneud eu dewisiadau o ran pynciau a gyrfa.
- 24 Yn y mwyafrif o achosion, nid oes gan ysgolion systemau ar waith i olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn deilliannau dysgu GBG. Mewn rhai ysgolion, nid yw'r aelod staff sy'n gyfrifol am gydlyn darpariaeth GBG yn meddu ar ddealltwriaeth glir o ofynion y fframwaith. O ganlyniad, ni all mwyafrif yr ysgolion farnu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn GBG yn gywir, ac felly ni allant arfarnu effaith eu darpariaeth na chymharu eu perfformiad yn erbyn perfformiad ysgolion eraill.

Profiad sy'n canolbwyntio ar waith

- 25 Mae'r defnydd a wneir o leoliadau profiad sy'n canolbwyntio ar waith wedi gostwng yn sylweddol yn y mwyafrif o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt. Yn 2012, aeth o leiaf 90% o ddisgyblion ar leoliad profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn ystod cyfnod allweddol 4 bron ym mhob ysgol. O'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt ar gyfer yr adroddiad hwn, dim ond 38% ohonynt a ddywedodd fod o leiaf 90% o'u disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn mynd ar leoliad profiad sy'n canolbwyntio ar waith. Mewn 29% o ysgolion, nid yw unrhyw ddisgyblion yn cymryd rhan mewn profiad sy'n canolbwyntio ar waith. Mae'r defnydd a wneir o brofiad gwaith mewn dosbarthiadau chwech wedi gostwng i raddau tebyg.
- 26 Mae lleiafrif o'r ysgolion hynny sydd wedi lleihau eu darpariaeth profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn parhau i ddefnyddio lleoliadau gwaith i fodloni anghenion ychydig iawn o ddisgyblion sy'n agored i niwed. At ei gilydd, ychydig iawn o ysgolion yn unig sydd wedi nodi profiad sy'n canolbwyntio ar waith fel blaenoriaeth i wella, neu wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cynnal neu gynyddu'r agwedd hon ar eu darpariaeth. Mae'r ysgolion hyn yn cydweithio'n effeithiol ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys cyflogwyr lleol a'u hawdurdod lleol, i roi cyfle i'r rhan fwyaf o ddisgyblion fynd ar leoliad profiad sy'n canolbwyntio ar waith.

- 27 Yn y rhan fwyaf o achosion, un rheswm dros y gostyngiad mewn profiad sy'n canolbwyntio ar waith yw'r ffaith nad yw Gyrfa Cymru yn cynnal cronfa ddata o leoliadau posibl mwyach. Mae'r ysgolion hyn yn teimlo nad yw hi bellach yn bosibl neilltuo'r adnoddau angenrheidiol i fodloni gofynion iechyd a diogelwch cynnal rhaglen profiad sy'n canolbwyntio ar waith. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae amser a oedd yn cael ei neilltuo ar gyfer profiad gwaith yn y gorffennol bellach yn cael ei ddefnyddio i gwblhau gweithgareddau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn sôn am ofynion cymwysterau newydd, fel y cyrsiau TGAU newydd mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg, fel rheswm dros gwtogi ar brofiad sy'n canolbwyntio ar waith. Mae bron pob un o'r ysgolion sydd wedi terfynu neu leihau rhaglenni profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn teimlo bod hyn yn cael effaith niweidiol ar gynnydd disgyblion tuag at amcanion y fframwaith GBG a'u dealltwriaeth o'u dewisiadau gyrfa.
- 28 Nododd adroddiad Estyn yn 2014, sef *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed*, nad oedd ysgolion uwchradd wedi cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu gwneud i rôl Gyrfa Cymru. Er gwaethaf hyn, nid yw ysgolion wedi ymateb yn ddigon effeithiol i'r newidiadau hyn ar y cyfan, ac mae hyn wedi cael effaith niweidiol ar y defnydd a wneir o leoliadau profiad sy'n canolbwyntio ar waith. Yn ychwanegol, nid yw ysgolion wedi cael arweiniad diwygiedig ar gyngor ac arweiniad gyrfaoedd gan Lywodraeth Cymru.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 29 Mae'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol o ran paratoi disgyblion ar gyfer eu dewisiadau ôl-16 yn rhannu rhai nodweddion cyffredin, sef:
- mae ganddynt arweinwyr sy'n gwerthfawrogi GBG, yn deall ei bwysigrwydd yn y cwricwlwm ac yn sicrhau bod ganddo broffil uchel ar draws yr ysgol
 - maent yn neilltuo digon o amser i wersi a gweithgareddau sy'n canolbwyntio'n glir ar GBG
 - maent yn defnyddio ystod eang o weithgareddau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd, fel siaradwyr allanol, ymweliadau neu ddigwyddiadau blwyddyn gyfan ble caiff yr amserlen ei hatal
 - maent yn elwa ar ystod eang o bartneriaethau i wella'r ffordd y caiff GBG ei gyflwyno
 - maent yn annog disgyblion i ystyried ystod lawn y dewisiadau ôl-16 sydd ar gael iddynt drwy eu cwricwlwm yn yr ardal leol
 - maent yn trefnu hyfforddiant rheolaidd ar gyfer staff sy'n arwain a chyflwyno GBG, yn darparu adnoddau dysgu cyfoes ar gyfer gweithgareddau GBG ac yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol y farchnad lafur yn cael ei rhoi i ddisgyblion
 - maent yn defnyddio'r amcanion dysgu yn y fframwaith GBG i asesu a monitro cyflawniad disgyblion

Arweinyddiaeth a chydlynid

- 30 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion aelod dynodedig o staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyflwyno GBG. Yn y mwyafrif o achosion, aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth yw hwn. Mewn lleiafrif o ysgolion, arweinydd canol yw'r cydlynnydd GBG. Mae hyn yn cynrychioli newid proffil mewn arweinyddiaeth GBG ers adroddiad blaenorol Estyn yn 2012, pan oedd gan uwch arweinydd gyfrifoldeb am GBG yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mewn ychydig iawn o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt ar gyfer yr adroddiad hwn, nid yw'r strwythur arwain yn glir ynglŷn â phwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am yr agwedd hon ar waith yr ysgol.
- 31 Caiff mwyafrif y cydlynwyr GBG eu dwyn i gyfrif yn addas am eu rôl. Er enghraifft, cânt gyfarfodydd rheolaidd â rheolwyr llinell ble disgwylir iddynt ddarparu tystiolaeth o gynnydd tuag at dargedau a nodwyd. Mae gan ryw hanner y cydlynwyr amcanion rheoli perfformiad penodol sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd darpariaeth GBG.
- 32 Mewn lleiafrif o achosion, nid yw prosesau i fonitro ac arfarnu gwaith y cydlynnydd GBG yn ddigon trylwyr. Mewn tua hanner yr ysgolion, nid oes disgrifiad swydd penodol ar gyfer rôl y cydlynnydd GBG neu nid yw'r rôl wedi cael ei hadolygu am gyfnod sylweddol. Mae'r diffyg disgrifiad swydd cyfoes hwn yn cyfyngu ar allu uwch arweinwyr i arfarnu effeithiolrwydd y cydlynnydd GBG neu'i ddwyn i gyfrif.
- 33 Yn gyffredinol, nid yw ysgolion yn defnyddio llywodraethwyr yn ddigon da i gefnogi cynllunio a chyflwyno GBG yn strategol. Mae cyfran yr ysgolion sydd â llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb enwebedig am GBG wedi cynyddu ychydig er

2012. Fodd bynnag, nid oes gan ryw hanner yr ysgolion lywodraethwr sydd â'r rôl benodol hon o hyd. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn defnyddio profiad ac arbenigedd eu llywodraethwyr yn dda, er enghraifft trwy ddefnyddio cysylltiadau llywodraethwyr â busnesau lleol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, ni roddir digon o gyfleoedd i lywodraethwyr enwebedig gefnogi cyflwyno GBG. Mae rhai ysgolion yn rhoi adroddiadau rheolaidd ar GBG i lywodraethwyr, ond yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r adroddiadau hyn yn rhoi digon o wybodaeth berthnasol i lywodraethwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae'r ysgol yn cyflwyno GBG.

Prosesau hunanarfarnu

- 34 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid yw darpariaeth GBG yn rhan ddigon amlwg o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys targedau clir a mesuradwy i wella'r ffordd y caiff GBG ei gyflwyno, ond nid yw mwyafrif o ysgolion yn nodi unrhyw gamau gweithredu penodol yn gysylltiedig â GBG yn eu cynllun datblygu ysgol.
- 35 Mewn tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae cydlynwyr gyrfaedd yn ymgymryd â gweithgareddau addas i arfarnu ansawdd eu darpariaeth. Mewn tua hanner yr ysgolion, mae gweithgareddau hunanarfarnu yn rhy anffurfiol ac nid ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth ddigon cadarn. Er enghraifft, nid oes unrhyw brosesau ffurfiol ar waith i arfarnu ansawdd addysgu GBG.
- 36 Mae ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddata i arfarnu effeithiolrwydd eu darpariaeth GBG. Mae hyn yn cynnwys:
- cyfran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n gallu dethol eu pynciau dewis cyntaf yn y broses ddewis
 - nifer y cyfweiliadau a gynhelir gan gynghorwyr Gyrfu Cymru
 - cyfran y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n parhau i'r chweched dosbarth
 - adborth o holiaduron i ddisgyblion a rhieni
 - nifer y disgyblion sy'n llwyddo i sicrhau lle yn eu dewis cyntaf o ran coleg neu brifysgol
 - y data cyrchfannau a ddarperir gan Gyrfu Cymru
- 37 Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r defnydd a wneir o'r rhan fwyaf o'r data hwn wrth arfarnu darpariaeth GBG gan nad yw'n nodi'n glir pa mor dda y mae'r ysgol wedi cynorthwyo disgyblion i wneud penderfyniadau llwyddiannus yn gysylltiedig â gyrfaedd. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn nodi lefelau uchel o gyfraddau cadw disgyblion ar gyfer y chweched dosbarth neu geisiadau llwyddiannus i brifysgolion fel dystiolaeth fod eu GBG yn llwyddiannus, heb ystyried pa mor llwyddiannus y mae'r disgyblion hyn yn cwblhau'r cyrsiau hyn.
- 38 Mae mwyafrif yr ysgolion yn nodi nifer y disgyblion y nodwyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y data cyrchfannau blynyddol a ddarperir gan Gyrfu Cymru. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw defnydd ysgolion o'r data sydd ar gael wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd, ac nid yw lleiafrif o ysgolion yn defnyddio data allanol i arfarnu GBG. Mewn ychydig iawn o achosion, mae arweinwyr yn defnyddio data yn effeithiol i fonitro dilyniant a chyrchfan cynaiedig disgyblion ar ôl iddynt adael yr ysgol.

- 39 Nid oes gan fwyafrif o ysgolion systemau ar waith i olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn y deilliannau dysgu yn y GBG, ac ni allant asesu effaith eu darpariaeth GBG yn gywir.
- 40 Mae bron i dri chwarter yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn dal Marc Gyrfu Cymru am wella ansawdd yn barhaus, neu maent yn gweithio tuag ato. Mae'r archwiliadau y maent wedi'u cwblhau yn erbyn arweiniad cyhoeddedig Llywodraeth Cymru ar GBG yn eu helpu i nodi'n gliriach sut i wella ansawdd GBG. Fodd bynnag, o'r ysgolion hynny sy'n gweithio tuag at gyflawni Marc Gyrfu Cymru ar hyn o bryd, nid yw llawer ohonynt yn nodi GBG yn flaenoriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol nac yn olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn deilliannau dysgu'r fframwaith GBG, ac ym mwyafrif yr ysgolion hyn, nid oes gan y cydlynnydd gyrfaoedd ddisgrifiad swydd clir ar gyfer y rôl hon.

Gweithio mewn partneriaeth

- 41 Nododd adroddiad blaenorol Estyn ar GBG yn 2012 fod amrywiadau mawr yn y graddau y mae ysgolion yn cynnwys partneriaid eraill mewn cyflwyno'r rhaglen GBG. Mae hyn yn parhau i fod yn wir, ac yn gyffredinol, mae partneriaid allanol yn cyflwyno cyfran lai o GBG nag yr oeddent bum mlynedd yn ôl. Er enghraifft, mae cyfran yr ysgolion sy'n cyflwyno mwy na thri chwarter eu GBG eu hunain wedi codi o 49% i 60%.
- 42 Dim ond 17% o ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt ar gyfer yr adroddiad hwn sy'n dibynnu ar ddarparwyr allanol, fel Gyrfu Cymru, am fwy na hanner y GBG y maent yn ei gyflwyno, o gymharu â 27% yn 2012. Ym mhob un o'r ysgolion hyn, mae cyfanswm yr amser a neilltuir i GBG islaw cyfartaledd yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, ac mae'n aml ymhell islaw. Mae hyn yn dangos bod yna ambell ysgol lle byddai disgyblion yn cael ychydig iawn o gyfle i elwa ar GBG heb ei gyflwyno'n allanol. Mae hyn yn lleihau lefel y cyngor personoledig a'r arweiniad diduedd a gaiff disgyblion.
- 43 Mae bron pob ysgol yn teimlo bod ganddynt bartneriaeth weithio gref gyda Gyrfu Cymru, ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod y bartneriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion. Yn benodol, maent yn teimlo bod Gyrfu Cymru yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rheiny y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fodd bynnag, mae tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn dangos bod gostyngiadau yn lefel y cymorth y gall Gyrfu Cymru ei gynnig wedi cael effaith negyddol ar yr arweiniad a gaiff llawer o ddisgyblion. At ei gilydd, nid yw ysgolion wedi ymateb yn ddigon effeithiol i newidiadau yn rôl Gyrfu Cymru.
- 44 Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes gan ysgolion brosesau digon trylwyr ar waith i arfarnu effeithiolrwydd cyfraniadau partneriaeth at eu darpariaeth GBG. Mae llawer o ysgolion, er enghraifft, yn monitro cyfran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn cyfweiliad gyda chynghorydd gyrfaoedd, ond nid oes ganddynt feini prawf clir y gallant eu defnyddio i fesur effaith neu'r gwerth am arian a gynigir gan ddarparwyr allanol.
- 45 Traean o ysgolion yn unig sy'n cymryd unrhyw ran mewn cynllunio GBG yn strategol o fewn eu rhwydwaith 14-19 lleol. Nid yw defnyddio gweithio mewn partneriaeth o un ysgol i'r llall i gefnogi cynllunio a chyflwyno GBG a threfnu lleoliadau profiad gwaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol chwaith.

Hyfforddiant staff ac adnoddau

- 46 Mae nifer y staff sy'n cyflwyno GBG yn amrywio'n fawr, gan amrywio o bron pob un o'r staff mewn rhai ysgolion i lai na phum aelod o staff mewn ysgolion eraill. Yn y mwyafrif o ysgolion, caiff staff hyfforddiant rheolaidd i'w cynorthwyo i gyflwyno GBG. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant digonol na rheolaidd ar GBG. Mewn ychydig iawn o ysgolion, caiff staff eu neilltuo i gyflwyno GBG bob blwyddyn yn gyfan gwbl ar sail eu hargaeledd o ran yr amserlen. Caiff y diffyg parhad hwn effaith negyddol ar ansawdd y cyflwyno, a phroffil GBG yn yr ysgol.
- 47 Mae mwyafrif o ysgolion yn defnyddio gwybodaeth y farchnad lafur i lywio cynllunio eu darpariaeth GBG. Mae hyn yn eu helpu i ddarparu cymorth gwybodus i ddisgyblion sy'n ystyried eu dewisiadau pwnc a gyrfa. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion naill ai'n darparu digon o hyfforddiant a gwybodaeth gyfoes ynglŷn â'r farchnad lafur bresennol ar gyfer y staff hynny sy'n cyflwyno GBG, neu nid ydynt yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur o gwbl.
- 48 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae arweinwyr wedi cryfhau eu darpariaeth GBG dros y pum mlynedd ddiwethaf trwy fuddsoddi mewn hyfforddiant staff ac adnoddau addysgu cyfoes. Rhoddir un enghraifft isod:

Cyflwynir GBG gan dîm dynodedig o chwech o athrawon, wedi'u cefnogi gan diwtoriaid dosbarth. Mae'r tîm hwn yn aros yr un fath bob blwyddyn i sicrhau cysondeb a galluogi'r ysgol i feithrin arbenigedd a rhannu arfer dda yn well. Mae'r ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r awdurdod lleol a chyflogwyr lleol i drafod tueddiadau presennol y farchnad lafur. Mae colegau a chyflogwyr lleol yn cyfrannu at ddigwyddiadau gyrfaedd trwy gydol y flwyddyn. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn dilyn cwrs achrededig yn gysylltiedig â gyrfaedd. Mae hyn yn helpu'r ysgol i fonitro cynnydd disgyblion unigol mewn GBG. Mae'r ysgol yn defnyddio data i fonitro cynaliadwyedd dewisiadau disgyblion yn y sector ôl-16, sy'n eu helpu i arfarnu eu darpariaeth yn effeithiol.

Atodiad: Sail y dystiolaeth

Cymerwyd y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o 156 o adroddiadau arolygu ysgolion uwchradd o 2012-2017, gan gynnwys ymatebion i holiaduron i ddysgwyr a rhieni o'r arolygiadau hyn, ac o 35 o ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt, gan gynnwys:

- 21 o ymatebion i holiaduron a anfonwyd i sampl gynrychioliadol o ysgolion uwchradd:
 - Ysgol Alun
 - Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt
 - Bryn Celynnog
 - Ysgol Gyfun Bryn Hafren
 - Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt
 - Ysgol Uwchradd Fitzalan
 - Ysgol Lewis Pengam
 - Ysgol Llanilltud Fawr
 - Ysgol Uwchradd Y Drenewydd
 - Ysgol Uwchradd Pen Y Dre
 - Ysgol Stanwell
 - Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd
 - Ysgol Aberconwy
 - Ysgol David Hughes
 - Ysgol Glan Y Môr
 - Ysgol Gyfun Gwyr
 - Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
 - Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
 - Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
 - Ysgol Syr Thomas Jones
 - Ysgol y Moelwyn
- cyfweiliadau dros y ffôn a gynhaliwyd gyda naw ysgol uwchradd, sef:
 - Ysgol Gatholig yr Archesgob Mcgrath
 - Ysgol Uwchradd Aberhonddu
 - Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi
 - Ysgol Gyfun Treforys
 - Ysgol Olchfa
 - Coleg Cymunedol Tonypandy
 - Ysgol Dyffryn Aman
 - Ysgol Gyfun Ystalyfera
 - Ysgol Maes Y Gwendraeth
- pum arolygiad yn 2016-2017 a fu'n arbrofi â threfniadau arolygu newydd, gan gynnwys ffocws penodol ar GBG:
 - Ysgol Gyfun Brynteg
 - Ysgol Uwchradd Dinbych
 - Ysgol Tre-gŵyr
 - Ysgol Gyfun Y Pant
 - Ysgol David Hughes

Geirfa

ABCh	Addysg bersonol a chymdeithasol
GBG	Gyrfaoedd a'r byd gwaith
Gyrfa Cymru	Sefydliad sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd ar gyfer Cymru
Lefel 2+	Trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg: nifer o gymwysterau ar lefel 2 sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU, graddau A*-C gan gynnwys Saesneg, neu Gymraeg mamiaith a mathemateg

Niferoedd – symiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [Defnyddiwyd 12 Ebrill 2017]

Estyn (2012) *Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r Fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/penderfyniadau-gwybodus-gweithredu-fframwaith-gyrfaoedd-ar-byd-gwaith-hydref-2012?_ga=2.24844986.1255877926.1503996130-1482749420.1490018420 [Defnyddiwyd 12 Ebrill 2017]

Estyn (2014) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14 – 16 oed*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gwasanaethau-cymorth-dysgwyr-mewn-colegau-addysg-bellach-ar-gyfer-dysgwyr-16-19?_ga=2.23796026.1255877926.1503996130-1482749420.1490018420 [Defnyddiwyd 13 Ebrill 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/careers-world-of-work/?lang=cy> [Defnyddiwyd 13 Ebrill 2017]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Uchelgeisiau i'r Dyfodol: Datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <http://gov.wales/docs/caecd/research/101115-future-ambitions-developing-careers-services-cy.pdf> [Defnyddiwyd 29 Mawrth 2017]

CBAC (2015) *Manyleb Genedlaethol/Sylfaenol Cyfnod Allweddol 4 Bagloriaeth Cymru*. Caerdydd: CBAC. [Ar-lein]. Ar gael o: http://cbac.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/Welsh-Baccalaureate-Specification-KS4-National-Foundation-CYMRAEG-Branded.pdf?language_id=2 [Defnyddiwyd 29 Mawrth 2017]